# Sawl ffordd o fwynhau
# Sawl ffordd o dalu

Mwynhewch…
Talu…
Trosolwg
Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud
Deall eich ffi
Llywodraethu a chydymffurfio
Ardystiadau
Cysylltu â ni



**Adolygiad Blynyddol 2010/11 | www.tvlicensing.co.uk**

TV LICENSING
TRWYDDEDU TELEDU

« »

**Mwynhewch…**
Talu…
Trosolwg
Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud
Deall eich ffi
Llywodraethu a chydymffurfio
Ardystiadau
Cysylltu â ni

# Sawl ffordd o fwynhau…

## …wylio gyda ffrindiau



"Does dim byd gwell na gwylio gêm rygbi byw gyda chriw o ffrindiau, er mwyn i bawb allu gweiddi ar y teledu gyda'ch gilydd!"

**Louise Shaw**

## …recordio



"Dwi'n gweithio ar nos Sadwrn a Sul felly dwi'n hoffi dal i fyny ar X Factor ar ôl gwaith yn ystod yr wythnos trwy ei recordio ar Sky+."

**Victoria Just**

## …ffrydio byw



"Dwi'n dueddol o wylio popeth ar-lein – dal i fyny neu'n fyw. Mae'n llawer haws a dwi'n gallu ei wylio ble bynnag dwi eisiau – yn fy fflat neu hyd yn oed yn y caffi lleol."

**John Hamilton**

« »

**Mwynhewch…**

Talu…

Trosolwg

Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud

Deall eich ffi

Llywodraethu a chydymffurfio

Ardystiadau

Cysylltu â ni

# Sawl ffordd o fwynhau…

## …dal i fyny



"Dwi'n gweld bod dal i fyny yn fy ngalluogi i wylio llai o deledu, ond mwy o'r pethau dwi eisiau eu gwylio."

**Nicholas Singer**

## …ar liniadur



"Pan dwi yn y brifysgol, dim ond r fy ngliniadur dwi'n gwylio'r teledu mewn gwirionedd. Does gen i ddim teledu yn fy ystafell yn y neuadd breswyl. Mae'n hyblyg iawn – dwi'n gallu gwylio lot o sioeau yn fyw neu ar alw gyda phethau fel iPlayer a dal i fyny ar deledu."

**Kate Russell**

## …gwylio rhaglenni rhestredig



"Mae yna bob math o wasanaethau dal i fyny crand erbyn hyn. Ond dim ond teledu sylfaenol a gliniadur sydd gen i, felly dim ond fel y mae wedi ei restru ar fy set deledu fydda i'n gwylio rhaglenni. Mae'n well gen i hynny beth bynnag."

**Emma White**

Mwynhewch…
**Talu…**
Trosolwg
Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud
Deall eich ffi
Llywodraethu a chydymffurfio
Ardystiadau
Cysylltu â ni

# Sawl ffordd o dalu…

## …Debyd Uniongyrchol



**Dwi'n talu trwy ddebyd uniongyrchol oherwydd ei bod yn ffordd hawdd iawn i'w drefnu a fydda i ddim yn anghofio talu.**

**Christine Chester**

## …defnyddio'r we



**Dwi'n talu ar-lein am ei fod mor syml a hawdd.**

**Tony Brennan**

## …trwy Gerdyn Talu

TV LICENSING



**Da iawn a hawdd iawn – mae'n mynd yn dda gyda fy ffordd o fyw a rheoli fy nghyllideb.**

**John Palfrey**

Mwynhewch…
**Talu…**
Trosolwg
Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud
Deall eich ffi
Llywodraethu a chydymffurfio
Ardystiadau
Cysylltu â ni

# Sawl ffordd o dalu…

## …trwy neges destun



**Mae'r negeseuon testun yn grêt ac yn fy helpu i gadw trefn ar bethau'n haws.**

**Mark Jolly**

## …gyda Cherdyn Cynilo



**Mae'n llawer gwell na thalu'n llawn. Mae'n ei gwneud yn llawer haws i mi.**

**Catherine Sharp**

## …trwy siec



**Dwi'n hoffi talu trwy siec am mai dyma sydd hawsaf i mi. Felly ydw i wedi talu erioed.**

**Margaret McCloskey**

# Amdanom ni

**Mae 'Trwyddedu Teledu' nod masnach ar gyfer grŵp o sefydliadau sy'n gweinyddu casglu a gorfodaeth ffi'r drwydded deledu. Mae'r sefydliadau i gyd yn gweithio dan gontract i'r BBC, yr Awdurdod Trwyddedu.**

### Ein nod

Ein nod yw bod mor effeithiol â phosibl o ran casglu'r ffi trwyddedu i ddarparu'r swm mwyaf posibl o arian ar gyfer rhaglenni a gwasanaethau'r BBC.

Rydym eisiau darparu dewis o ddulliau syml i dalu fel bod pobl yn gallu prynu eu trwydded yn y modd sy'n gweddu orau iddynt. Mae'n well gennym fod pobl yn talu bob tro, ond byddwn yn mynd ar ôl y rhai sy'n gwrthod talu ar ran y mwyafrif gonest.

**69.6%**
**Debyd Uniongyrchol yw'r dull mwyaf poblogaidd o dalu o hyd**

### Ein sefydliadau partner

Mae Trwyddedu Teledu yn cynnwys ystod o sefydliadau arbenigol, wedi eu harwain gan grŵp bychan yn y BBC.


- Capita Business Services – prif ganolfannau galwadau, tîm o swyddogion ymholiad
- iQor – cynlluniau talu arian parod
- PayPoint – dulliau o dalu dros y cownter*
- Proximity London – gwasanaethau marchnata ac argraffu, cysylltiadau cyhoeddus a hysbysebu
- UK mail – gwasanaethau post

*Yn Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw, mae gwasanaethau dros y cownter ar gael yn Swyddfa'r Post.

Mwynhewch…
Talu…
**Trosolwg**
**Amdanom ni**
**Cipolwg ar 2010/11**
Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud
Deall eich ffi
Llywodraethu a chydymffurfio
Ardystiadau
Cysylltu â ni

# Cipolwg ar 2010/11

## Casglu



- **£92.7m (74.52%)** Costau yn cynnwys canolfannau galwadau, staff maes, datgeliad a gwasanaethau dros y cownter*
- **£2.5m (2.01%)** Dibrisiant systemau newydd
- **£16.6m (13.34%)** Cyfathrebu yn cynnwys nodiadau atgoffa
- **£8.7m (6.99%)** Postio
- **£3.9m (3.14%)** Gweinyddu, rheoli cytundebau a phrosiectau**

**£124.4m (100%)**
**Cyfanswm**

* Yn cynnwys ad-daliad cost gan y llywodraeth ar gyfer Trwyddedau Dros 75.

** Mae hyn yn cynnwys gosod llog a dderbyniwyd yn erbyn costau.

Casglodd Trwyddedu Teledu **£3.7biliwn**, i fyny **£99miliwn** o'r flwyddyn gynt.

Mae gwylio teledu mor boblogaidd ag erioed, gyda'r canran o gartrefi sydd â set deledu yn 96.7%, ond mae mwy o bobl nawr yn gwylio ar gyfrifiaduron. Mae mwy na 25 miliwn o drwyddedau mewn grym.

Mae cost casglu'r ffi drwyddedu yn is na'r llynedd ar 3.4c i bob £1 a gesglir (i lawr o 3.5c y llynedd).

« »

Mwynhewch…

Talu…

**Trosolwg**

Amdanom ni
Cipolwg ar 2010/11

Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud

Deall eich ffi


Llywodraethu a chydymffurfio

Ardystiadau

Cysylltu â ni

# Cipolwg ar 2010/11 parhad

## Gwariant



Y llynedd, roedd Trwydded Deledu lliw pob cartref yn costio oddeutu £12.13 y mis. Ar gyfartaledd, dyma sut y gwariodd y BBC yr arian:


Cyfartaledd gwariant y mis

| | |
|---|---|
| **£8.01** | Teledu |
| **£2.16** | Radio |
| **£0.66** | Ar-lein |
| **£0.61** | Arall |
| **£0.42** | Casglu |
| **£0.27** | Digidol – marchnata a chynllun cymorth |
| **£12.13** | **Cyfanswm** |

Mwynhewch…
Talu…
**Trosolwg**
Amdanom ni
Cipolwg ar 2010/11
Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud
Deall eich ffi
Llywodraethu a chydymffurfio
Ardystiadau
Cysylltu â ni

# Cipolwg ar 2010/11 parhad

## Osgoi




Rydym wedi llwyddo i gadw osgoi yn isel er gwaethaf amgylchiadau economaidd anodd. Mae wedi parhau i fod yn sefydlog ar tua 5% ar gyfer y pum mlynedd diwethaf. Mae hyn yn golygu bod gan y rhan fwyaf o bobl, neu 19 o bob 20 o gartrefi a busnesau, y tawelwch meddwl o wybod bod ganddynt sicrwydd Trwydded Deledu. Eleni roedd osgoi yn cynrychioli £202miliwn mewn incwm a gollwyd i'r BBC, cynnydd o £3.6miliwn ar y llynedd.

- Cyfanswm incwm a gasglwyd
- Cost Casglu
- Cyfradd osgoi†

† Ailddatganwyd osgoi hanesyddol yn defnyddio'r tybiaethau diweddaraf.

« »
Mwynhewch…
Talu…
Trosolwg
**Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud**
**Cefnogi talwyr**
**Sut mae pobl yn talu**
**Sut ydyn ni'n cyrraedd talwyr**
Deall eich ffi
Llywodraethu a chydymffurfio
Ardystiadau
Cysylltu â ni

# Cefnogi talwyr

## Rydym yn darparu ystod eang o ddulliau talu i'w gwneud mor hawdd â phosibl i bobl dalu ac er mwyn iddynt allu dod o hyd i ddull o dalu sy'n gweddu iddynt.

Gellir talu'r ffi bresennol o £145.50 mewn sawl ffordd yn cynnwys taliadau arian parod wythnosol, misol neu bob pythefnos neu daliadau Debyd Uniongyrchol misol, chwarterol neu flynyddol.

Mae ein gwefan yn ddull cynyddol boblogaidd i bobl dalu. Yn y flwyddyn ddiwethaf, gwerthwyd 2.3 miliwn o drwyddedau ar-lein, cynnydd o 2.1 miliwn y llynedd ac yn cynrychioli mwy na chwarter (27.7%) gwerthiant ac eithrio adnewyddiadau Debyd Uniongyrchol a thrwyddedau Dros 75 (sy'n cael eu hadnewyddu'n awtomatig).

Yn gysylltiedig i hyn, mae nifer sylweddol fwy o bobl yn dewis derbyn eu trwyddedau rwy e-bost. Gwerthwyd 1.4 miliwn eleni, i fyny 34%.

Debyd Uniongyrchol yw'r dull mwyaf poblogaidd o dalu o hyd – gwerthir 69.6% o'r trwyddedau sydd mewn grym (ac eithrio trwyddedau Dros 75) fel hyn, i fyny o 68.9% y llynedd.

### Talu trwy neges destun

Derbyniwyd dros hanner miliwn o daliadau trwy neges destun. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 40% ar y flwyddyn flaenorol ac yn atebol am werth dros £5miliwn o daliadau.

### Tueddiadau talu


Mae pobl yn defnyddio gwasanaethau awtomataidd yn gynyddol, megis llinellau ffôn a'r wefan. Gellir hefyd gweld y duedd hon i symud ar-lein yn y lleihad ar gyfer dulliau eraill e.e. roedd ceisiadau post i lawr i 4.5% o 4.8% y llynedd.



« »
Mwynhewch…
Talu…
Trosolwg
**Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud**
Cefnogi talwyr
**Sut mae pobl yn talu**
Sut ydyn ni'n cyrraedd talwyr
Deall eich ffi
Llywodraethu a chydymffurfio
Ardystiadau
Cysylltu â ni

# Sut mae pobl yn talu

## Mathau o daliadau



% o drwyddedau a gyhoeddir fesul sianel dalu

- **69.6%** Debyd Uniongyrchol
- **9.1%** Cardiau credyd/debyd
- **7.7%** Cerdyn Talu
- **6.5%** PayPoint (ffi lawn yn defnyddio arian parod/cerdyn)
- **4.5%** Siec/arian trwy'r post
- **2.3%** Cerdyn Cynilo
- **0.2%** Bancio o'r Cartref
- **0.1%** Siec/arian parod yn Swyddfa'r Post ar Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw

Mwynhewch…
Talu…
Trosolwg
**Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud**
Cefnogi talwyr
Sut mae pobl yn talu
**Sut ydyn ni'n cyrraedd talwyr**
Deall eich ffi
Llywodraethu a chydymffurfio
Ardystiadau
Cysylltu â ni

# Sut ydyn ni'n cyrraedd talwyr

Oherwydd bod yna deledu ym mron i bob cartref, yn ogystal â nifer o fusnesau, rydym eisiau sicrhau bod pobl yn gwybod pryd maent angen Trwydded Deledu a pha mor hawdd ydi hi i brynu un. I wneud hyn rydym yn ceisio cyrraedd pobl mewn sawl ffordd.

Rydym yn defnyddio llythyrau, e-bost, ein gwefan, galwadau ffôn, negeseuo testun, hysbysebion, cysylltiadau cyhoeddus a'n criw maes.

## Llythyrau

Gan fod y mwyafrif helaeth o ddeiliaid trwyddedau yn talu trwy Ddebyd Uniongyrchol, ychydig iawn o lythyrau fyddwn yn eu hanfon i'r rhan fwyaf o bobl. O'r rhai y mae'n rhaid i ni eu hatgoffa i dalu, bydd y rhan fwyaf yn ymateb wedi un llythyr. Os nad yw cwsmeriaid yn adnewyddu, mae tôn y llythyrau yn dod yn fwy difrifol i rybuddio pobl o oblygiadau peidio talu. Mae e-bost yn chwarae rhan gynyddol yn ein gohebiaeth.

## Gwefan

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd ein gwefan 10.5 miliwn o ymweliadau gan 8.7 miliwn o gwsmeriaid ac fe gynyddodd y nifer o ymweliadau o fwy nag 8% yn ystod y cyfnod hwnnw. Gallwch ganfod a ydych angen trwydded, prynu un, neu hyd yn oed roi gwybod i ni nad ydych angen un ar ein gwefan. Rydym wedi gwneud nifer o welliannau i'r wefan yn cynnwys y swyddogaeth chwilio, gwneud y broses adnewyddu yn fwy clir ac ychwanegu tudalen Gymraeg.

Mae'r wefan wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer nifer o wobrau yn cynnwys rhai Cymdeithas Cyfryngau Rhyngweithiol Prydain.

**10.5 miliwn**
**o ymweliadau i'r wefan yn ystod y flwyddyn**

## …ail-fyw'r foment



**"Dydd Sadwrn diwethaf, fe sgoriodd Wayne Rooney gôl arbennig. Roeddwn yn torri môl eisiau ei gweld. Roeddwn yn gallu mynd i'r rhaglen, hercio trwyddi a phigo'r foment pan sgoriodd, a'i gwylio dro ar ôl tro. Roedd yn fendigedig."**

**Rob Davidson**

« »

Mwynhewch…

Talu…

Trosolwg

**Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud**

Cefnogi talwyr
Sut mae pobl yn talu
Sut ydyn ni'n cyrraedd talwyr

Deall eich ffi

Llywodraethu a chydymffurfio

Ardystiadau

Cysylltu â ni


# Sut ydyn ni'n cyrraedd talwyr parhad

### E-bost


Os yw pobl wedi rhoi caniatâd i ni gysylltu â nhw trwy e-bost, rydym yn aml yn defnyddio'r dull hwn i gysylltu. Mae'r nifer o bobl sy'n derbyn negeseuon e-bost atgoffa wedi cynyddu i fwy na hanner miliwn ers y llynedd, cynnydd o 111%.


### Canolfan alwadau

Derbyniodd ein prif ganolfan alwadau 12% yn llai o alwadau (7 miliwn), gan barhau gyda'r duedd o'r flwyddyn flaenorol. Cafodd hyn ei ysgogi gan bobl yn bod yn fwy parod i ddefnyddio sianelau eraill megis y wefan, yn ogystal â gwella'r nifer o adegau rydym yn datrys ymholiad ar gyswllt cyntaf, ac felly'n arwain at lai o ymholiadau a chwynion. Rydym hefyd yn ffonio pobl yn rhagweithiol.

### Hysbysebu

Roedd ein hymgyrch hysbysebu hynod lwyddiannus, Gwasgwch Fotwm Bach, yn barod am newid gan ei fod dros flwyddyn oed. Cafodd effaith aruthrol, gyda'r gân ar gael i'w lawrlwytho oherwydd galw. Mae'n hysbysebion newydd, a ddarlledwyd yn gyntaf yn Mai 2011, yn cynnwys neges debyg ynglŷn â dulliau hawdd o dalu ac yn defnyddio dwy senario ddoniol i gyfleu hyn. Gallwch weld yr hysbysebion yma:




## …gwylio adref



> Rydym yn defnyddio iPlayer i ddal i fyny ar raglenni fel Doctor Who. Mae'n golygu y gallwn eistedd fel teulu – ar neu du ôl i'r soffa – a'i wylio pan fynnwn.

**Medi Houghton**

Mwynhewch…
Talu…
Trosolwg
Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud
Cefnogi talwyr
Sut mae pobl yn talu
Sut ydyn ni'n cyrraedd talwyr
Deall eich ffi
Llywodraethu a chydymffurfio
Ardystiadau
Cysylltu â ni

# Sut ydyn ni'n cyrraedd talwyr parhad

**Cysylltiadau cyhoeddus**

Rydym yn ceisio cymorth sefydliadau rhanddeiliaid i drosglwyddo ein negeseuon i gymunedau anodd eu cyrraedd ac incwm isel. Rydym yn ddiolchgar i'r 66 o sefydliadau mantell yr ydym wedi gweithio gyda nhw i helpu hysbysu pobl. Mae'r sefydliadau hyn wedi cynnwys Cyngor ar Bopeth, y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol Northern Ireland Council for Voluntary Action, Scottish Refugee Council ac Age Cymru. Rydym hefyd wedi gweithio gyda 300 o sefydliadau lleol. Rydym wedi cynnwys rhai ardystiadau a lluniau gan ein sefydliadau partner yn y ddogfen hon.

Mae'n brofiad o gasglu'r Drwydded Deledu ynddo'i hun hefyd yn creu tipyn o straeon newyddion.

**Cwynion**

Rydym yn ceisio gwneud popeth yn iawn y tro cyntaf, ond yn cydnabod nad yw hyn yn digwydd pob tro. Os byddwn yn gwneud camgymeriad, rydym yn ymddiheuro, yn unioni pethau a hefyd yn edrych ar pam y digwyddodd y gwall er mwyn i ni allu dysgu ohono i wella ein prosesau. Rydym yn gwneud cynnydd gwirioneddol yn hyn. Roedd cwynion y llynedd i lawr bron 20%, y lleihad mwyaf mewn unrhyw flwyddyn. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r lleihad yn bron i draean.

**20%**
**Roedd cwynion y llynedd i lawr bron i 20%**



**Sheena McCallion**
Cyfarwyddwr Tai a Gwasanaethau Gofal, Apex Housing

"Yn Apex, rydym yn ceisio diweddaru'n tenantiaid gydag unrhyw wybodaeth sy'n bwysig i'w bywydau dyddiol – mae gofynion cyfreithiol Trwyddedu Teledu yn rhan o hynny. Rydym wedi gweithio gyda Thrwyddedu Teledu i sicrhau bod ein tenantiaid yn derbyn yr wybodaeth fwyaf cyfredol, sy'n cynnwys yr amrywiol ddulliau o dalu sydd ar gael iddynt. Rydym hefyd yn cyfeirio tenantiaid at Drwyddedu Teledu am ragor o gyngor, ble fo'n briodol."

Mwynhewch…
Talu…
Trosolwg
Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud
Cefnogi talwyr
Sut mae pobl yn talu
Sut ydyn ni'n cyrraedd talwyr
Deall eich ffi
Llywodraethu a chydymffurfio
Ardystiadau
Cysylltu â ni

# Sut ydyn ni'n cyrraedd talwyr parhad


## Negeseuon testun

Rydym yn cyfathrebu'n gynyddol trwy negeseuon testun, gan anfon cyfartaledd o 650,000 y mis at 1.4 miliwn o gwsmeriaid ar gynlluniau Cardiau Talu. Mae hyn yn gynnydd o 4% o gymharu â'r llynedd.



## Gweithwyr maes

Mae ein tîm o swyddogion ymholiad yn ymweld â chyfeiriadau ble mae ein cronfa ddata yn dangos nad oes trwydded. Mae'r tîm hefyd yn gweithredu ein fflyd o faniau datguddio. Os canfyddir bod rhywun yn gwylio teledu heb drwydded, mae swyddogion ymholiad yn cymryd trwydded ac yn anfon yr achos ymlaen i'w ystyried ar gyfer erlyniad.




## …gwylio yn y gwaith



> O bryd i'w gilydd, rydw i wedi cymryd cipolwg ar Gêm Brawf ar fy nghyfrifiadur yn y gwaith.
>
> Dave Jones

« »

Mwynhewch…

Talu…

Trosolwg

Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud

**Deall eich ffi**

**Deall pryd fyddwch angen trwydded**

**Sut y gwariwyd y ffi drwyddedu**

Llywodraethu a chydymffurfio

Ardystiadau

Cysylltu â ni

# Deall pryd fyddwch angen trwydded

**Mae pawb yn y Deyrnas Unedig sy'n gwylio neu'n recordio rhaglenni teledu fel y'i darlledir ar Deledu angen cael Trwydded Deledu. Mae hyn yn cynnwys teledu ar gyfrifiaduron, ffonau symudol, chwaraewyr DVD/fideo a dyfeisiadau eraill yn cynnwys PVR.**

Mae'r Llywodraeth yn gosod lefel y ffi drwyddedu. Yn Ionawr 2007, cytunwyd ar y ffi drwyddedu am gyfnod o chwe blynedd gyda'r swm yn cael ei gymeradwyo pob blwyddyn gan Senedd. Yn fwy diweddar, fe benderfynodd y Llywodraeth rewi'r fi drwyddedau ar ei lefel 2010 o £145.50 hyd at ddiwedd cyfnod presennol Siarter y BBC yn 2016.

Cost flynyddol Trwydded Deledu lliw yw £145.50 (o 1 Ebrill 2010). Mae Trwydded Deledu ddu a gwyn yn £49.




« »

Mwynhewch…
Talu…
Trosolwg
Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud
**Deall eich ffi**
Deall pryd fyddwch angen trwydded
**Sut y gwariwyd y ffi drwyddedu**
Llywodraethu a chydymffurfio
Ardystiadau
Cysylltu â ni

# Sut y gwariwyd y ffi drwyddedu yn 2010/11

## Rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2011 y gost oedd £145.50 – sy'n cyfateb i £12.13 y mis neu ychydig llai na 40c y dydd

Defnyddiodd y BBC ei incwm o'r ffi drwyddedu i dalu am ei wasanaethau teledu, radio ac ar-lein, a chostau eraill, fel y gwelir isod:



« »

Mwynhewch…
Talu…
Trosolwg
Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud
**Deall eich ffi**
**Deall pryd fyddwch angen trwydded**
**Sut y gwariwyd y ffi drwyddedu**
Llywodraethu a chydymffurfio
Ardystiadau
Cysylltu â ni

# Sut y gwariwyd y ffi drwyddedu yn 2010/11 parhad

## Radio

BBC Radio 1
BBC Radio 1Xtra
BBC Radio 2
BBC Radio 3
BBC Radio 4
BBC Radio 4 extra
BBC Radio 5 live
BBC Radio 5 live sports extra
BBC Radio 6 music
BBC Radio Asian Network
BBC Local Radio
BBC Radio Scotland
BBC Radio nan Gàidheal
BBC radio wales
BBC radio cymru
BBC Radio Ulster
BBC Radio Foyle

## Costau eraill

digital
Buddsoddiad mewn technoleg newydd
Costau rhedeg
Casglu ffi'r drwydded

Mae'r BBC hefyd yn derbyn incwm gan BBC Worldwide a'r llynedd fel ad-dalodd y Llywodraeth am danwariant yn y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol.

« »

Mwynhewch…
Talu…
Trosolwg
Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud
Deall eich ffi
**Llywodraethu a chydymffurfio**
Ardystiadau
Cysylltu â ni

# Llywodraethu a chydymffurfio

Mae 'Trwyddedu Teledu' yn nod masnach i'r BBC.

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn goruchwylio'r BBC ac yn sicrhau bod trefniadau ar gyfer casglu'r ffi drwyddedu yn 'effeithiol, priodol a chymesur'.

Derbyniom gyfanswm o 139 cais rhyddid gwybodaeth yn ystod y flwyddyn, o gymharu â 145 y llynedd, neu gyfartaledd o 12 y mis. Mae hyn tua 10% o'r holl geisiadau rhyddid gwybodaeth a dderbyniwyd gan y BBC. Gellir gweld ein ceisiadau rhyddid gwybodaeth yma.

Defnyddiwyd eithriadau ar gyfer tua hanner yr ymatebion, yr un lefel â'r llynedd. Yr eithriadau a ddefnyddir amlaf yw pan allai rhyddhau gwybodaeth ragfarnu atal neu ganfod trosedd, neu fuddiannau masnachol y BBC neu'n partneriaid, neu ble gofynnir am wybodaeth sydd wedi ei ddiogelu gan y Ddeddf Diogelu Data.

## Amrywiaeth

Mae gan Drwyddedu Teledu Gynllun Gweithredu Amrywiaeth, a gyhoeddwyd ar 24 Mai 2011 ac mae ar gael yn: www.bbc.co.uk/diversity/documents.shtml.

## Diogelwch data

Rydym yn ystyried fod yr wybodaeth a gedwir gennym o'r pwys mwyaf. Mae gennym bolisïau a rheoliadau cadarn i sicrhau fod gwybodaeth yn ddiogel.

## Deddfwriaeth

Mae yna nifer o ddeddfau sy'n cwmpasu gwaith Trwyddedu Teledu. Mae'r rhain yn cynnwys:

| Enw | Effaith |
|---|---|
| Rheoliadau Cyfathrebu (Trwyddedu Teledu) 2004 (fel y'i haddasir yn flynyddol) | Yn sefydlu'r ffi drwyddedu ac yn disgrifio beth mae'r Drwydded Deledu yn cwmpasu i chi. |
| Deddf Cyfathrebu 2003 | Yn caniatáu i'r BBC gyhoeddi, ganslo neu addasu Trwyddedu Teledu. Yn ei gwneud yn drosedd i beidio cael Trwydded Deledu pan fydd angen un. |
| Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 | Mae'n golygu bo gan y BBC ofyniad cyfreithiol i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â Thrwyddedu Teledu mewn ymateb i geisiadau, ac eithrio ble ceir eithriad yn y Ddeddf. |
| Deddf Rheoleiddio Grymoedd Ymchwilio 2000 | Yn delio â'r defnydd cyfreithlon o offer gwyliadwriaeth i ganfod defnydd didrwydded o dderbynyddion teledu. |
| Deddf Diogelu Data 1998 | Yn gosod gofyniad cyfreithiol ar y BBC i sicrhau y rheolir gwybodaeth bersonol mewn ffordd gywir. |

## Sut ydym yn gweithredu'r deddfau hyn

Mae gennym bolisïau i ddehongli'r ddeddfwriaeth hon ar gyfer defnydd ymarferol. Mae ein cynghorydd polisi yn datblygu'r polisïau gyda chyfreithwyr arbenigol yn defnyddio'r meini prawf p'un a ydynt yn gyfreithiol gywir, yn deg i'r cwsmer, yn briodol ac yn gymesur.

Mwynhewch…
Talu…
Trosolwg
Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud
Deall eich ffi
Llywodraethu a chydymffurfio
**Ardystiadau**
Cysylltu â ni


# Ardystiadau



**Joanna Elson OBE**

Prif Weithredwr,
Money Advice Trust

"Dylid trin eich Trwydded Deledu fel dyled flaenoriaeth, ynghyd â chostau fel eich morgais neu rent, treth y cyngor a biliau nwy a thrydan. Dylai'r rhai sy'n cael trafferth gyda'u sefyllfa ariannol geisio cyngor am ddim, annibynnol gan sefydliad elusennol megis y Llinell Ddyled Genedlaethol neu Gyngor ar Bopeth. Mae hefyd yn werth nodi ei bod yn bosibl talu eich Trwydded Deledu mewn taliadau wythnosol mewn allfa PayPoint, dros y ffôn, ar-lein neu trwy neges destun trwy ymuno â'r cynllun talu arian parod."



**Desmond Middleton**

Prif Swyddog Cymorth Ariannol, Cyngor Argyll a Bute

"Fe dderbyniom gyflwyniad defnyddiol iawn gan y tîm Trwyddedu Teledu yn yr Alban. Byddwn yn argymell i unrhyw un sydd mewn sefyllfa debyg i ofyn am gyflwyniad eu hunain."



**Victoria Lloyd**

Cyfarwyddwr dylanwadu a datblygu rhaglennu,
Age Cymru

"Mae Age Cymru yn gweithio gyda miloedd o bobl hŷn dan anfantais pob blwyddyn, gyda nifer yn cael trafferth cadw dau ben llinyn ynghyd ar incwm sefydlog gweddol isel. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r Drwydded Deledu am ddim i rai dros 75 yn fenter i'w chroesawu. Mae Age Cymru yn gwbl gefnogol i ymdrechion Trwyddedu Teledu i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun yng Nghymru a gwneud ymgeisio am y drwydded am ddim mor syml â phosibl."

«
Mwynhewch…
Talu…
Trosolwg
Beth ydym yn wneud a sut ydym yn ei wneud
Deall eich ffi
Llywodraethu a chydymffurfio
Ardystiadau
**Cysylltu â ni**

# Cysylltu â ni

**Cysylltu â ni**
Rydym yn hoffi cael adborth. Cysylltwch â ni i roi eich barn am yr Adolygiad Blynyddol hwn neu i gynnig sylwadau ar unrhyw agwedd ar Drwyddedu Teledu'n fwy cyffredinol.

Gall y cyhoedd holi cwestiwn yn defnyddio'r wefan, trwy ffonio **0300 790 6131** neu ysgrifennu at Drwyddedu Teledu, Bryste BS98 1TL.

I'r rhai sy'n cysylltu â Thrwyddedu Teledu ar ran sefydliad neu mewn cymhwyster proffesiynol, ewch trwy'r Swyddfa Ymgyrchu ar **020 7544 3116** neu anfon e-bost at **campaignoffice@tvlicensing.info**

Sylwer, ni all y Swyddfa Ymgyrchu ddelio ag ymholiadau cwsmeriaid unigol.

Gellir gwneud cais am gopïau Braille o'r adroddiad hwn trwy ffonio **0300 790 6131**.

Mae ein cyfleuster ffôn testun ar gyfer y byddar neu drwm eu clyw ar **0300 790 6050**.

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar adran 'amdanom ni' gwefan Trwyddedu

Teledu: www.tvlicensing.co.uk

Mae'r holl ddyfyniadau gan y cyhoedd trwy gydol y ddogfen yn rhai dilys.

Ble rhoddwyd caniatâd i ni ddefnyddio eu henwau rydym wedi gwneud hynny, fel arall fe ddefnyddiwyd enwau ffug. Mae'r lluniau a ddefnyddiwyd yn fodelau ac nid y bobl a ddyfynnir. Nid yw hyn yn berthnasol i'n hardystiadau, ar dudalen 14 ac 20, sy'n dyfynnu ac yn dangos y sawl a enwir.

tvlicensing.co.uk

Dylunio gan luminous.co.uk